

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**Adroddiad 04-13 i'r Cynulliad ar
Sanctsiynau**

Mai 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2082 1821
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Safonau@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**Adroddiad 04-13 i'r Cynulliad ar
Sanctsiynau**

Mai 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor yw cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22. Mae'r rhain yn cynnwys: ymchwilio i gwynion a gyfeirir iddo gan y Comisiynydd Safonau; ystyried unrhyw faterion o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau; sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion; a threfnu Cofrestr Buddiannau'r Aelodau a chofnodion cyhoeddus perthnasol eraill sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Mick Antoniw (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Pontypridd



Llyr Huws Gruffydd
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Mark Isherwood
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Kirsty Williams
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Brycheiniog a Sir Faesyfed

Cynnwys

Argymhelliad	5
Cyflwyniad	6
2. Cefndir	7
3. Cefndir Deddfwriaethol	9
4. Ymgynghori ag Aelodau	11
5. Ystyriaethau	12
Arferion mewn Deddfwrfeydd eraill yn y DU	12
Ystod a manylion y sancsiynau sydd ar gael	13
Cyfnod o waharddiad	13
Tynnu cyflog yn ôl	15
Tynnu hawliau a breintiau yn ôl	16
Diarddel	17
6. Cyfundrefn Sancsiynau Arfaethedig	19
Egwyddorion Canolog	19
Disgresiwn	19
Ail-droseddu	19
Bwriad	19
Y Sancsiynau sydd ar gael	20
Ymddiheuriad	20
Cerydd	20
Ehangu'r sancsiwn o waharddiad	20
Tynnu hawliau a breintiau yn ôl	21
Atodiad A - Llythyr Ymgynghoriad y Comisiynydd	23
Atodiad B - Adroddiad y Comisiynydd ar yr Ymgynghoriad ar Sancsiynau	25
Atodiad C - Diwygiadau arfaethedig i'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn Erbyn Aelodau'r Cynulliad	28

Argymhelliad

Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn argymell y dylai Rheolau Sefydlog y Cynulliad:

- i) alluogi'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad i argymell sancsiwn o waharddiad am fethu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad nad yw'n ymwneud â Rheol Sefydlog 2 - Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau;
- ii) adlewyrchu darpariaethau Rheol Sefydlog bresennol 2.10 drwy beidio â datgan unrhyw isafswm nac uchafswm amser ar gyfer y gwaharddiad;
- iii) galluogi'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad i argymell tynnu hawliau a breintiau yn ôl, heblaw am dynnu cyflog yn ôl, fel sy'n gysylltiedig â gwaharddiad. (Tudalen 21)

1. Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canfyddiadau ac argymhellion dilynol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar y sancsiynau a ddylai fod ar gael i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn achosion o fethu â chydymffurfio â safonau ymddygiad.

2. Cefndir

2. Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad sy'n gyfrifol am sefydlu a gosod gerbron y Cynulliad "weithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion o dan Reol Sefydlog 22.2(i)." Mae'r weithdrefn gwyno honno¹ yn rhestru'r sancsiynau y gall y Pwyllgor eu hargymell ar gyfer eu cymeradwyo gan y Cynulliad os yw'n canfod achos o fethu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

3. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yr amrywiaeth o sancsiynau sydd ar gael fel rhan o adolygiad cyffredinol o weithdrefnau safonau yn y Pedwerydd Cynulliad. Caiff yr adolygiad hwn ei arwain gan Gomisiynydd Safonau Cymru. Mae swyddogaethau statudol y Comisiynydd yn cynnwys cynghori'r Cynulliad ar egwyddorion a gweithdrefnau safonau ac unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â hyrwyddo, annog a diogelu safonau uchel o ymddygiad o ran swydd gyhoeddus Aelod Cynulliad. Yn dilyn ei benodiad ym mis Rhagfyr 2010, cytunodd y Pwyllgor ag argymhelliad y Comisiynydd i symleiddio a diweddarau gweithdrefnau safonau.

4. Mae'r Pwyllgor yn adolygu gweithdrefnau'n rheolaidd hefyd yn sgîl ei ymchwiliad i gwynion y cyfeiriwyd ato gan y Comisiynydd Safonau. Ym mis Mai 2012, argymhellodd y Pwyllgor gynnig i geryddu Aelod. Gan fod yr achos o fethu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad yn gysylltiedig ag ymddygiad personol yn hytrach nag er budd ariannol na budd arall, nododd y Pwyllgor, wrth wneud yr argymhelliad hwn, na fyddai'n bosibl gweithredu sancsiwn o waharddiad o drafodion y Cynulliad a thynnu hawliau a breintiau yn ôl am gyfnod penodol. Heb wneud unrhyw sylw ar yr achos hwnnw, cododd y cwestiwn a oedd yr ystod o sancsiynau a oedd ar gael yn ddigon eang.

5. Wrth ystyried unrhyw estyniad i'r sancsiynau posibl sydd ar gael, mae'n bwysig cydnabod y darpariaethau sy'n gysylltiedig â'u defnyddio. O dan y weithdrefn gwyno, rhaid i unrhyw argymhelliad a wnaiff y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, gael ei wneud gan uchafswm unfrydol o bwyllgor trawsbleidiol o bedwar aelod; mae gan yr Aelod o dan sylw yr hawl i apelio yn erbyn y canfyddiad o fethu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, ar sail gweithdrefnol penodol a nodir yn adran 8

¹ Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad, cymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 24 Ebrill 2012.

o'r weithdrefn gwynion; a rhaid i unrhyw sancsiwn a gaiff ei argymell gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn.

3. Cefndir Deddfwriaethol

6. Yn unol â'r weithdrefn gwyno bresennol, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad sy'n gyfrifol am ystyried cwyn y cyfeiria'r Comisiynydd Safonau ato a phenderfynu a ganfuwyd methiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ai peidio. Yn dibynnu ar unrhyw apêl gan yr Aelod, caiff y Pwyllgor wneud un o'r tri argymhelliad a ganlyn i'r Cynulliad:

- y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach;
- y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid "ceryddu" yr Aelod o dan Reol Sefydlog 22.10; neu
- y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid gwahardd yr Aelod o drafodion y Cynulliad² am gyfnod penodol yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Mae Rheol Sefydlog 22.10 yn darparu y caiff adroddiad i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a wneir o dan Reol Sefydlog 22.9, gynnwys argymhelliad i geryddu³ Aelod am fethu â chydymffurfio ag unrhyw rai o'r materion a gaiff eu cwmpasu yn Rheol Sefydlog 22.2(i). Y materion hynny yw:-

- Rheol Sefydlog 2 Buddiannau Ariannol A Buddiannau Eraill yr Aelodau;
- unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad yn ymwneud â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau;
- Rheol Sefydlog 5 (Cofnodi Aelodaeth o Gymdeithasau)
- unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad mewn cysylltiad â safonau ymddygiad Aelodau;
- unrhyw God neu brotocol a wneir o dan Reol Sefydlog 1.10 ac yn unol ag adran 36(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
- Rheol Sefydlog 3 (Cofnodi Cyflogaeth Aelodau'r Teulu gyda Chymorth Arian y Comisiwn): neu

² Caiff "trafodion y Cynulliad" eu diffinio yn adran 1(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel "any proceedings of the Assembly, committees of the assembly or sub-committees of such committees."

³Ni chaiff "cerydd" ei ddiffinio yn y Rheolau Sefydlog. Mae diffiniad o'r term yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru yn cynnwys, "Disgyblaeth am fai, dwrdiad, cosb; bai, pechod, cam, euogrwydd", a cheir disgrifiad yn Saesneg mewn man arall, "an official rebuke by a legislature of one of its members".

- Rheol Sefydlog 4 (Cofnodi'r Amser y bydd Aelod yn Ymwneud â Gweithgarwch Cofrestradwy).

7. Pan fydd adroddiad y Pwyllgor yn ymwneud ag Aelod yn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 2, caiff y Cynulliad, ar gynnig a gaiff ei wneud gan y Cadeirydd, benderfynu gwahardd yr Aelod o unrhyw rai o drafodion y Cynulliad am gyfnod penodol yn y cynnig.

8. Nid yw Rheolau Sefydlog 3, 4 a 5 (sy'n gysylltiedig â'r gofynion i gofnodi buddiannau a gweithgareddau penodol) yn darparu ar gyfer gwaharddiad mewn achos o beidio â chydymffurfio. O ganlyniad, dim ond pan fydd y Pwyllgor yn argymhell bod Aelod yn cael ei geryddu mewn cysylltiad â chwyn sy'n ymwneud â Rheol Sefydlog 2 y mae'r sancsiwn o waharddiad ar gael.

9. Daw Rheol Sefydlog 2 o adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O dan adran 36(7), mae Aelod sy'n cymryd rhan mewn trafodion, ond nad yw'n cydymffurfio â Rheol Sefydlog 2, neu'n gweithredu'n groes iddi, yn cyflawni trosedd, ac mae'n agored, mewn collfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol. Dim ond gyda chaniatâd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus y gellir gweithredu erlyniad am drosedd o dan adran 36.

4. Ymgynghori ag Aelodau

10. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel sydd gan ddeddfwrfeydd eraill, weithdrefn hunan-reoliadol ar gyfer sancsiynau'n ymwneud â methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, ac a weithredir gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad trawsbleidiol. Yna, caiff unrhyw argymhelliad a wnaiff y Pwyllgor ei gyfeirio i'w gymeradwyo gan y Cynulliad cyfan. Felly, mae'r Comisiynydd Safonau wedi gwneud cais am farn holl Aelodau'r Cynulliad o ran cynnig gwelliannau i'r gyfundrefn bresennol, a chânt eu crynhoi isod:

“Yng nghyd-destun unrhyw achos o fethu â chydymffurfio â safonau neu Reol Sefydlog benodol, dylai fod gan y Pwyllgor Safonau bŵer i argymell, a dylai fod gan y Cynulliad Cenedlaethol bŵer i benderfynu bod:

Yr Aelod

- A yn cael ei “geryddu” gan y Cynulliad;**
 - B yn cael ei wahardd o drafodion y Cynulliad am gyfnod penodedig;**
 - C yn colli ei hawliau a'r breintiau sydd ynghlwm wrth fod yn Aelod am y cyfnod hwnnw;**
 - D yn cael ei wahardd o drafodion y Cynulliad heb dâl am gyfnod penodedig;**
- Neu, pan ystyrir bod hynny'n briodol, unrhyw gyfuniad o'r uchod."**

11. Ceir llythyr ymgynghoriad y Comisiynydd yn Atodiad A. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y pwyntiau a godwyd yn adroddiad llawn y Comisiynydd ar ei ymgynghoriad, sydd yn Atodiad B.

12. Mae'r Pwyllgor yn croesawu casgliad y Comisiynydd fod cefnogaeth eang, os nad unfrydol, i'w gynigion, ac mae'n nodi cefnogaeth y Llywydd dros ystod ehangach o sancsiynau, tebyg i'r hyn sydd wedi'i gynnig ar gyfer cynnal ymgynghoriad arno, er mwyn rhoi hyblygrwydd i'r Pwyllgor ac i'r Cynulliad bennu sancsiynau ystyrllon sy'n briodol i unrhyw amgylchiadau penodol.

5. Ystyriaethau

Arferion mewn Deddfwrfeydd eraill yn y DU

13. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried arferion mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU a cheir crynodeb o'r darpariaethau yn y tabl a ganlyn.

Sanctsiwn	Cymru	Yr Alban	Gogledd Iwerddon	Tŷr Cyffredin
Cerydd	Gall y Pwyllgor Safonau argymell cerydd yn erbyn Aelod Cynulliad (RhS 22)	Heb ei nodi	le	Caiff y Llefarydd geryddu Aelod Seneddol drwy ei alw at far y Tŷ
Ymddiheuriad	Heb ei nodi	Heb ei nodi	le	le
Gwahardd o'r trafodion gan y Llywydd am weddill y dydd.	le (RhS13)	le	le	le
Gwahardd am gyfnod penodedig a bleidleisiwyd ar gynnig deddfwrfa.	le	le	le	le
Colli tâl am gyfnod y gwaharddiad.	le	le	le	le
Gwahardd o gyffiniau'r ddeddfwrfa.	Heb ei nodi	le	le	le

Ystod a manylion y sancsiynau sydd ar gael

14. Pan ganfyddir bod Aelod Seneddol wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, bydd y Pwyllgor Safonau a Breintiau yn argymhell sancsiwn priodol i'r Tŷ. Mae'r rhain, i bob pwrpas, yn gyfyngedig i ymddiheuriad personol neu gyfnod o waharddiad a cholli tâl. Ym 1999, argymhellodd y Cydbwyllgor ar freintiau Seneddol, bŵer i'r ddau Dŷ godi dirwyon, ond ni weithredwyd hyn.⁴

15. Mae gan Senedd yr Alban ystod eang o sancsiynau ar gael, gan gynnwys sancsiynau seneddol manwl i gyfyngu ar gyfraniad Aelodau mewn trafodion, neu ei atal. Mae ei God Ymddygiad hefyd yn nodi'r sancsiynau mewn cysylltiad â: troseddau; ymddygiad mewn cyfarfodydd; torri rheolau mewn cysylltiad â threuliau; grwpiau trawsbleidiol a trîn staff.

Cyfnod o waharddiad.

16. Mae Rheol Sefydlog 2.10, sy'n darparu ar gyfer gwaharddiad mewn achos o dorri'r rheolau o ran cofnodi a datgan buddiannau, yn datgan y byddai gwaharddiad o drafodion y Cynulliad "am gyfnod a bennir yn y cynnig." Felly mae gan y Pwyllgor ddisgresiwn i argymhell, yn y cynnig y mae'n ei roi i'r Cynulliad, y cyfnod o waharddiad sy'n briodol yn ei farn ef o dan yr amgylchiadau penodol o fethu â chydymffurfio â'r rhan hon o'r Cod Ymddygiad.

17. Ceir y darpariaethau presennol eraill ar gyfer gwahardd Aelod o drafodion y Cynulliad am gamymddygiad o dan Reol Sefydlog 13 (Trefn yn y Cyfarfodydd Llawn) a Rheol Sefydlog 17.27 (Ymddygiad mewn Pwyllgorau). Gweithredir y sancsiwn hwn o dan awdurdod y Llywydd. Mae Rheol Sefydlog 13.13 yn datgan bod gwahardd Aelod o dan Reol Sefydlog 13.12 yn dod i rym ar unwaith a rhaid i'r gwaharddiad hwnnw bara:

- (i) y tro cyntaf yn ystod unrhyw gyfnod o 12 mis, tan ddiwedd y diwrnod gwaith yn union ar ôl diwrnod y gwaharddiad;

⁴ [Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, *The Code of Conduct for Members - recent changes*, Nodyn Safonol SN/PC 05127, Mawrth 2011 \[fel ar 7 Chwefror 2012\]](#)

- (ii) yr ail dro yn ystod yr un cyfnod o 12 mis, am bum diwrnod gwaith yn union ar ôl diwrnod y gwaharddiad; a
- (iii) y trydydd tro neu ar unrhyw dro wedi hynny yn ystod yr un cyfnod o 12 mis, am 20 diwrnod gwaith yn union ar ôl diwrnod y gwaharddiad.

18. Byddai cymhwyso'r un raddfa symudol hon o rhwng un ac 20 diwrnod gwaith i waharddiadau am fethiannau safonol i gydymffurfio yn gyson â'r Rheol Sefydlog hon, ond nid Rheol Sefydlog 2.10. Yn ymarferol, mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU, gall hyd gwaharddiad am fethu â chydymffurfio amrywio'n sylweddol. Rhwng 1976 a 2011, mae Aelodau Seneddol wedi cael eu gwahardd am gyfnodau o rhwng pum niwrnod a mis. Yn 2010, cafod tri Aelod o Dŷ'r Arglwyddi eu gwahardd am hawlio treuliau'n anghywir, gydag un o'r gwaharddiadau hyn yn para tan ddiwedd y sesiwn seneddol honno, sef cyfnod o 19 mis.

19. Mae'r Pwyllgor wedi nodi awgrym y Grŵp Llafur y dylid nodi'n ddiamwys mewn unrhyw Reol Sefydlog newydd uchafswm cyfnod gwaharddiad - "chwe mis efallai." O dan adran 16(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, nododd y Pwyllgor hefyd y dylai unrhyw Aelod Cynulliad, sy'n troseddu ac a gaiff ei ddedfrydu i garchar am dros flwyddyn, gael ei ddatgymhwyso rhag bod yn Aelod, er na fyddai dedfryd ddigarchar, fel Gorchymyn Gwasanaeth Cymunedol, bod yn rhwymedig neu gael ei roi ar unrhyw gofrestr, yn arwain at ddatgymhwyso.

20. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y mater hwn yn ofalus. Mae'n ystyriol o ba mor bwysig yw peidio â difreinio cynrychiolwyr etholedig yr Aelod yn ddiangen, a rôl pleidiau gwleidyddol wrth ymdrin â gweithredoedd eu haelodau eu hunain. Mae'r Pwyllgor yn ystyriol hefyd o'i rôl led-farnwrol ei hun wrth reoleiddio ymddygiad Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol - rhaid cadw ffydd pob plaid a rhaid i'w benderfyniadau gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad cyfan.

21. Mae sancsiynau yn gweithredu fel rhwystr, ac fel cosb mewn achos o gamwedd. Mae'r Pwyllgor yn cynnig ehangu'r sancsiynau sydd ar gael yn y gobaith, a'r disgwyliad, mai anaml iawn, os o gwbl, y bydd angen eu gweithredu. Fodd bynnag, mae'n cytuno â barn y Comisiynydd na ddylai'r sefydliad fod mewn sefyllfa yn y dyfodol lle nad oes ganddo'r gallu i gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i ddiogelu ei enw da ei hun. Mae'r Pwyllgor, felly, yn tueddu tuag at

gymryd agwedd hyblyg tuag at ehangu darpariaethau Rheol Sefydlog 2.10 o ran methu â chydymffurfio ag agweddau eraill ar y Cod Ymddygiad, heb nodi unrhyw isafswm nac uchafswm cyfnod o waharddiad yn y Rheolau Sefydlog. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu ei swyddogaethau fel grŵp trawsbleidiol, lled-farnwrol, annibynnol y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dirprwyo'r swyddogaethau pwysig hyn o ffydd iddo, yn amodol, bob amser, ar gymeradwyaeth terfynol y Cynulliad ei hun.

Tynnu cyflog yn ôl

22. Mae Rheolau Sefydlog 13.14 a 2.11 yn datgan nad yw Aelod, am gyfnod y gwaharddiad, yn gymwys i gael unrhyw gyflog gan y Cynulliad. Mae hyn yn golygu bod y gwaharddiad yn tynnu hawliau pleidleisio oddi ar yr Aelod ynghyd â chosb awtomatig o golli tâl. Mae'r un sancsiwn hefyd yn gymwys yn Nhŷ'r Cyffredin. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae darpariaethau hefyd ar gyfer colli tâl, ond mae'r rhain yn sancsiynau ar wahân a gaiff eu cymhwyso yn ôl disgrisiwn y ddeddfwrfa. Nid yw'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn cynnig unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol, fel y nodir yn Rheolau Sefydlog 2 a 13, y bydd gwaharddiad o drafodion y Cynulliad yn arwain yn awtomatig hefyd at golli cyflog.

23. Mae'n bwysig nodi bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn cyfeirio at gyflog yn unig, ac nid at dynnu unrhyw lwfansau eraill a ddarperir ar eu cyfer o dan y Penderfyniad, fel ar gyfer costau swyddfa neu deithio. Mae hyn yn golygu na fyddai tynnu cyflog yn ôl yn effeithio ar staff cymorth yr Aelod, nac yn rhwystro'r Aelod rhag parhau i ymgymryd â gwaith achos etholaethol yn ystod cyfnod o waharddiad o drafodion y Cynulliad a / neu dynnu unrhyw hawliau a breintiau eraill yn ôl, fel mynediad i ystâd y Cynulliad. Ar yr amod bod yr Aelod yn parhau i fod yn Aelod (nad yw wedi ei ddatgymhwyso oherwydd y gweithredoedd dan sylw) yna ni ddylai'r cyfnod o waharddiad gael unrhyw effaith ar y cysylltiad personol hwnnw rhwng cyflogwr / cyflogai rhwng yr Aelod a'i staff cymorth.

24. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai cadw hawl yr Aelod i gael lwfansau eraill yn ystod cyfnod o waharddiad gael ei gamddefnyddio, ond mae hefyd yn nodi pryderon a godwyd ynghylch peidio â chosbi staff cymorth, naill ai'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, drwy sancsiwn a allai gael ei roi ar Aelod. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyriol o ba mor bwysig yw peidio â chymryd camau a allai ddifreinio etholwyr

yr Aelod yn ddiangen yn ystod cyfnod o waharddiad o'r Cynulliad a'i drafodion. Mater i'r Aelod o dan sylw, a / neu'r blaid y mae'n aelod ohoni, fyddai penderfynu sut y caiff buddiannau eu cynrychiolwyr etholedig eu cynrychioli yn ystod cyfnod o waharddiad, neu dynnu hawliau a breintiau aelodaeth o'r Cynulliad yn ôl.

25. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn ynghylch hawliau cyflogeion ac etholwyr yr Aelod, mae'r Pwyllgor yn argymhell mai dim ond cyfeirio at dynnu cyflog Aelod yn ôl y dylai'r Rheolau Sefydlog barhau i'w wneud, ac nid at unrhyw lwfansau eraill, ac y dylai'r weithdrefn gwynion nodi'n ddiamwys hefyd na fydd staff cymorth yr Aelod yn cael eu cosbi gan unrhyw sancsiwn a gaiff ei osod ar unrhyw Aelod.

Tynnu hawliau a breintiau yn ôl

26. Mae gan Bwyllgorau Safonau Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon bwerau i argymhell tynnu hawliau a breintiau penodol yn ôl.

27. Mae Adran 31 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi y caiff Rheolau Sefydlog y Cynulliad gynnwys darpariaeth ar gyfer tynnu unrhyw rai neu holl hawliau neu freintiau aelodaeth o'r Cynulliad oddi ar Aelod o'r Cynulliad. Fodd bynnag, ac eithrio'r darpariaethau yn Rheolau Sefydlog 2.11, 13.14 a 17.27 yn ymwneud â gwaharddiad a cholli cyflog, nid yw Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn cyfeirio at dynnu unrhyw hawliau na breintiau eraill yn ôl.

28. Nid yw Cod Ymddygiad Cynulliad Gogledd Iwerddon yn nodi unrhyw hawliau na breintiau y gellir eu tynnu yn ôl oddi ar ei Aelodau, ond yn Senedd yr Alban, mae'r manylion hyn yn cynnwys:

- gwahardd yr aelod o drafodion y Senedd yn gyffredinol neu'n benodol, er enghraifft trafodion mewn cyfarfodydd penodol o'r Senedd neu ei phwyllgorau;
- gwaharddiad o weithgareddau eraill y byddai gan yr aelod hawl i fynd iddynt, fel Grwpiau Trawsbleidiol;
- tynnu yn ôl hawl mynediad fel aelod i gyfadeiladau'r Senedd;
- tynnu yn ôl hawl mynediad fel aelod i gyfleusterau a gwasanaethau'r Senedd;

- tynnu breintiau cynrychioliadol a seremonïol a breintiau cysylltiedig oddi ar aelod a fyddai fel arfer yn eu mwynhau fel aelod;
- tynnu yn ôl lwfans neu gyflog neu unrhyw ran o lwfans neu gyflog aelod.

29. Bydd Senedd yr Alban yn penderfynu, fesul achos, pa hawliau a breintiau fydd yn cael eu tynnu yn ôl oddi ar aelod ac am ba hyd. Defnyddiwyd y sancsiwn hwn yn 2005 yn erbyn aelodau o Blaid Sosialaidd yr Alban, a wnaeth dorri ar draws cyfarfod yn y Siambr, yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog, a bu raid eu symud oddi yno ar ôl i'r cyfarfod ar 30 Mehefin gael ei atal dros dro. Cytunodd y Senedd i wahardd yr Aelodau hyn o Senedd yr Alban drwy gydol mis Medi.⁵

30. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn argymhell bod y Rheolau Sefydlog yn nodi bod ganddo ddisgresiwn i argymhell tynnu hawliau a breintiau eraill yn ôl, a bod rhestr o'r hawliau a'r breintiau hynny y gellir eu tynnu yn ôl yn cael ei nodi yn Adran 7.11 o'r Weithdrefn Gwynion.

Diarddel

31. Y sancsiwn uchaf yn Nhŷ'r Cyffredin yw diarddel:

“It is an outstanding demonstration of House’s power to regulate its own proceedings, even its composition. The expulsion of a member cannot be challenged. It may best be understood as a means available to the House to rid itself of those it finds unfit for membership, rather than as a punishment. Members have been expelled for perjury, fraud, corruption or “conduct unbecoming the character of an officer and a gentleman”; only a few had offended against the House itself or committed a breach of privilege or contempt.”⁶

32. Fel y deddfwrfeydd datganoledig eraill, dim ond o fewn cyfyngiadau ei ddeddfau cyfansoddiadol ei hun y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru weithredu, sef Deddf Llywodraeth Cymru 2006, felly nid oes yr un fraint seneddol ganddo ar gyfer y pŵer dros y sancsiwn uchaf hwn i ddiarddel. Fodd bynnag, nid yw'r pŵer i ddiarddel wedi cael ei ddefnyddio mewn unrhyw achos yn Senedd y DU

⁵ Senedd yr Alban, Cofnod, 30 Mehefin, col 18669

⁶ R Blackburn et al, *Griffith and Ryles on Parliament: Functions, Practice and Procedure*, ail argraffiad, Sweet and Maxwell, 2002

ers achos Gary Allighan ym 1947, pan bleidleisiodd y Tŷ 187-75 o blaid ei ddiarddel am fethu â chydymffurfio â braint ar ôl iddo ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol. Y tu hwnt i'r DU, mewn awdurdodaethau fel Canada, sydd â chysylltiad â breintiau Tŷ'r Cyffredin, ymddengys fod y pŵer i ddiarddel aelod yn dal i fodoli drwy arddel y cysylltiad hwnnw, er bod Seland Newydd a Thŷ'r Cynrychiolwyr yn Awstralia wedi sôn am ddileu'r pŵer hwnnw.

6. Cyfundrefn Sancsiynau Arfaethedig

Egwyddorion Canolog

Disgresiwn

33. Dylai'r Pwyllgor barhau i gael disgresiwn dros ddehongli'r sancsiynau sydd ar gael a'u cymhwyso i bob achos fesul un. Yn yr un modd, wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r gyfundrefn sancsiynau, nid yw am argymell unrhyw beth a fyddai'n arwain at olygu y byddai'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch sancsiynau yn mynd yn ormod o faich ar y Pwyllgor.

34. Mae'n bwysig rhoi rhywfaint o arweiniad i'r Aelodau o ran defnyddio sancsiynau, ond dylai'r Weithdrefn Gwynion gyfeirio at sancsiynau y "caiff" y Pwyllgor eu cymhwyso, yn hytrach nag at sancsiynau y mae'n "rhaid" iddo'u cymhwyso, a gwneud yn glir y byddai'r Pwyllgor yn ystyried yr holl amgylchiadau ym mhob achos. Os yw'r sancsiynau yn rhy benodol, gallai hyn gyfyngu ar sut y caiff pethau eu hystyried - rhaid i'r Pwyllgor allu ymateb yn hyblyg i wahanol sefyllfaoedd.

Ail-droseddu

35. Dylai achosion o ail-droseddu arwain at ganlyniadau mwy difrifol a dylai'r gyfundrefn sancsiynau adlewyrchu hyn. Rhaid i'r Pwyllgor fod mewn sefyllfa i ymdrin yn briodol â throsedd ddifrifol sy'n digwydd unwaith, ac unrhyw achos o droseddau "llai difrifol", ond mwy mynych a allai gael ei ystyried yn achos o ddangos dirmyg tuag at gyd-Aelodau ac at y rheolau. Dylai canllawiau yn y Weithdrefn Gwynion a fydd yn cydfynd â'r gyfundrefn sancsiynau ystyried y ffordd o fynd i'r afael ag achosion o ail-droseddu.

Bwriad

36. Dylai'r gyfundrefn sancsiynau hefyd ganiatáu disgresiwn i'r Pwyllgor argymell sancsiwn sy'n ystyried bwriad, sef a oedd methiant bwriadol i gydymffurfio â'r cod ymddygiad ai peidio, ac a oedd achos o anonestrywydd neu dwyll ynghlwm wrtho. Mae darpariaeth hefyd yn Adran 10 o'r Weithdrefn Gwynion i'r Comisiynydd ymdrin â mân achosion unigol technegol neu anfwriadol o fethu â chydymffurfio, yn hytrach na'u cyfeirio at y Pwyllgor. Mae darpariaethau tebyg ar gyfer "gweithdrefn gywiro" yn bodoli mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU.

Y Sanctsiynau sydd ar gael

Ymddiheuriad

37. Mae Adran 10 o'r Weithdrefn Gwynion yn cyfeirio at Aelod naill ai'n 'cywiro' neu'n "ymddiheuro'n foddhaol" am fân fethiant, ond nid yw'r defnydd o ymddiheuriad fel "sanctsiwn" yn cael ei nodi unman arall yng Nghymru na'r Alban. Byddai disgwyl i'r Aelod ymddiheuro i'r achwynwr a / neu i'r Cynulliad am fethu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig. Fodd bynnag, mater i'r Aelod o dan sylw yw hyn ac efallai bod achosion lle y byddai Aelod, er ei fod yn cydnabod iddo fethu â chydymffurfio, yn dewis, am resymau gwleidyddol neu ddaliadau personol, peidio â chyhoeddi ymddiheuriad llawn am ei weithredoedd, neu un a fyddai'n "foddhaol" ym marn y Pwyllgor. Barn y Pwyllgor yw bod ei adroddiad i'r Cynulliad yn gyfle i fynegi ei farn ynghylch difrifoldeb unrhyw fethiant a ganfyddir, gan gynnwys mynegi anghymeradwyaeth, ni waeth a fydd yr Aelod yn dewis cyhoeddi ymddiheuriad personol wedyn ai peidio.

Cerydd

38. Nid yw'r Pwyllgor yn argymhell unrhyw newid i'r darpariaethau presennol i "geryddu" Aelod.

Ehangu'r sanctsiwn o waharddiad

39. Barn y Pwyllgor yw y dylai'r sanctsiwn o waharddiad fod ar gael mewn amgylchiadau ac eithrio'r rhai y maent yn gymwys iddynt ar hyn o bryd. Er na all ragweld achosion yn y dyfodol pan fyddai'n dewis argymhell y sanctsiwn hwn ac eithrio mewn achos o fethu â chydymffurfio â'r rheolau buddiannau ariannol a buddiannau eraill, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol i'r sanctsiwn hwn fod ar gael i'w ystyried.

40. Byddai angen gwelliant neu welliannau i'r Rheolau Sefydlog er mwyn sicrhau'r newid hwn, yn unol â'r weithdrefn a osodwyd yn Rheol Sefydlog 33 (Ailwneud y Rheolau Sefydlog, eu Diwygio a'u Hatal Dros Dro). Nid oes angen unrhyw welliant mawr i'r Weithdrefn Gwynion yn yr achos hwn, gan ei fod eisoes yn cynnwys y sanctsiwn a ganlyn:

"v. y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid gwahardd yr Aelod o drafodion y Cynulliad am gyfnod penodol yn unol â'r Rheolau Sefydlog."

Tynnu hawliau a breintiau yn ôl

41. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad o'r farn y dylai hefyd, fel y darpariaethau sancsiynau yn Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, gael y disgrisiwn i allu argymell tynnu hawliau a breintiau yn ôl oddi ar Aelod heblaw am dynnu cyflog, fel sy'n gysylltiedig â gwaharddiad. Gallai hyn, er enghraifft, rwystro Aelod rhag cael mynediad i Ystâd y Cynulliad, neu gynrychioli'r Cynulliad mewn unrhyw rôl arall yn ystod y cyfnod o waharddiad. Gall y Pwyllgor Safonau Ymddygiad gyflwyno hyn drwy welliant i'r Weithdrefn Gwynion, ond byddai angen i allu'r Pwyllgor i argymell y sancsiwn hwn gael ei gynnwys hefyd yn y Rheolau Sefydlog, gan mai dim ond at y gallu i geryddu y mae Rheol Sefydlog 22 yn cyfeirio ar hyn o bryd.

Argymhelliad – Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn argymell y dylai Rheolau Sefydlog y Cynulliad:

- i) alluogi'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad i argymell sancsiwn o waharddiad am fethu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad nad yw'n ymwneud â Rheol Sefydlog 2 - Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau;**
- ii) adlewyrchu darpariaethau Rheol Sefydlog bresennol 2.10 drwy beidio â datgan unrhyw isafswm nac uchafswm amser ar gyfer y gwaharddiad;**
- iii) galluogi'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad i argymell tynnu hawliau a breintiau yn ôl, heblaw am dynnu cyflog yn ôl, fel sy'n gysylltiedig â gwaharddiad.**

42. Yn amodol ar weithredu'r argymhellion hyn gan y Cynulliad, bydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn gosod fersiwn ddiwygiedig o 'Gweithdrefn ar gyfer ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad' gerbron y Cynulliad. Fel y nodir yn Atodiad C isod, bydd y weithdrefn ddiwygiedig yn cynnwys:

- sancsiwn o dynnu hawliau a breintiau Aelodau yn ôl (ar wahân i golli tâl), gan nodi'r hawliau a'r breintiau hynny y gellir eu hargymell i gael eu tynnu yn ôl.
- rhai canllawiau pellach o ran rhoi disgrisiwn i'r Pwyllgor wneud ei argymhellion ei hun i'r Cynulliad, yn seiliedig ar amgylchiadau

pob achos, ac y bydd yn ystyried ffactorau fel bwriad neu ail-droseddu wrth argymell unrhyw sancsiwn.

43. Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn cymeradwyo'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Busnes.

Atodiad A - Llythyr Ymgynghoriad y Comisiynydd

18 Mawrth 2013

Hollol Gyfrinachol

Annwyl...

Y wythnos hon, mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, mewn sesiwn breifat, wedi ystyried y cwestiwn o sancsiynau sydd ar gael iddo i'w hargymell i'r Cynulliad Cenedlaethol, pe bai achos yn codi ei fod yn canfod bod Aelod Cynulliad wedi methu â chydymffurfio â safonau priodol neu Reol Sefydlog.

Ar hyn o bryd, fel y gwyddoch, ac eithrio mewn un achos o drosedd "ariannol" benodol, mae pwerau'r Pwyllgor - a'r Cynulliad - yn gyfyngedig i naill ai gynnig peidio â chymryd camau pellach neu gyflwyno / cymeradwyo cynnig o gerydd.

Barn gychwynnol holl aelodau'r Pwyllgor yw y gallai'r sancsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd fod yn anfoddhaol o dan yr holl amgylchiadau yn y dyfodol a bod angen gweithdrefn sy'n rhoi rhagor o bŵer i wneud argymhellion pellach - ac i'r Cynulliad eu cymeradwyo. Nododd y Pwyllgor y byddai'r weithdrefn arfaethedig yn debyg iawn i rai Seneddau a Chynulliadau eraill y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

Felly, mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno'r cynigion canlynol i gynnal ymgynghoriad arnynt:

Yng nghyd-destun unrhyw achos o fethu â chydymffurfio â safonau neu Reol Sefydlog benodol, dylai fod gan y Pwyllgor Safonau y pŵer i argymell, a dylai fod gan y Cynulliad Cenedlaethol y pŵer i benderfynu bod:

Yr Aelod


- A yn cael ei "geryddu" gan y Cynulliad***
- B yn cael ei wahardd o drafodion y Cynulliad am gyfnod penodedig***
- C yn colli ei hawliau a'r breintiau sydd ynghlwm wrth fod yn Aelod am y cyfnod hwnnw***

D yn cael ei wahardd o drafodion y Cynulliad heb dâl am gyfnod penodedig

Neu, pan ystyrir bod hynny'n briodol, unrhyw gyfuniad o'r uchod.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i mi gynnal y broses ymgynghori ac adrodd yn ôl erbyn 23 Ebrill. Felly rwyf yn cynnig gofyn am farn yr holl Aelodau ar y weithdrefn arfaethedig hon. Rwyf yn ysgrifennu at bob Aelod Cynulliad yn unigol i ofyn eu barn, ond yn anfon hwn atoch (gyda chopi at Gadeirydd eich Plaid), i amlinellu'r ffaith fy mod yn fodlon cwrdd â chi a / neu unrhyw gynrychiolydd o'ch plaid i drafod y mater hwn. Buaswn hefyd yn croesawu unrhyw sylwadau ysgrifenedig ar y pwnc.

Buaswn yn gwerthfawrogi eich cymorth o ran annog yr Aelodau i gysylltu â mi yn ystod y cyfnod hwn o ymgynghoriad anffurfiol. Hoffwn dderbyn eich holl sylwadau erbyn diwedd y dydd ar 12 Ebrill. Nid yw Jonathan Thomas yma am y pythefnos nesaf felly, am y tro, gellir cysylltu â mi drwy John Grimes ar estyniad 8225 neu drwy e-bost yn Comisiynydd.Safonau@cymru.gov.uk
Cofion gorau



Gerard Elias QC
Y Comisiynydd Safonau
Commissioner for Standards

Atodiad B - Adroddiad y Comisiynydd ar yr Ymgynghoriad ar Sanctsiynau

Cefndir

1. Ganol mis Mawrth 2013, cefais gais gan y Pwyllgor i gynnal ymgynghoriad i ganfod pa mor dderbyniol yw barn gychwynnol y Pwyllgor o ran y sanctsiynau ddylai fod ar gael iddo wneud argymhelliad i'r Cynulliad Cenedlaethol pe bai'n canfod bod Aelod Cynulliad wedi methu â chydymffurfio â'r safonau neu Reol Sefydlog benodol.
2. Cafodd barn gychwynnol y Pwyllgor ei hymgorffori gennyf mewn llythyr a anfonwyd ar 14 Mawrth at holl Aelodau'r Cynulliad, y Llywydd ac arweinwyr y pleidiau. Nododd y llythyr:

"Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno'r cynigion canlynol i gynnal ymgynghoriad arnynt:

Yng nghyd-destun unrhyw achos o fethu â chydymffurfio â safonau neu Reol Sefydlog benodol, dylai fod gan y Pwyllgor Safonau y pŵer i argymhell, a dylai fod gan y Cynulliad Cenedlaethol y pŵer i benderfynu bod:

Yr Aelod

- A yn cael ei "geryddu" gan y Cynulliad***
- B yn cael ei wahardd o drafodion y Cynulliad am gyfnod penodedig***
- C yn colli ei hawliau a'r breintiau sydd ynghlwm wrth fod yn Aelod am y cyfnod hwnnw***
- D yn cael ei wahardd o drafodion y Cynulliad heb dâl am gyfnod penodedig***

Neu, pan ystyrir bod hynny'n briodol, unrhyw gyfuniad o'r uchod."

Ymgynghoriad

3. Cafodd ymgynghoreion ddewis rhwng cwrdd â mi, trafod dros y ffôn neu ymateb yn ysgrifenedig neu drwy e-bost. Gofynnwyd iddynt ymateb, ym mha bynnag ffordd, ar neu erbyn 12 Ebrill.
4. Cefais bedwar ymateb cadarnhaol, gan gynnwys ymateb gan y Llywydd ac ymateb ar ran grŵp y Blaid Lafur yn y Cynulliad, yn dilyn cyfarfod o'r grŵp hwnnw, fel y deallaf.

Casgliadau

5. Mae pob ymateb wedi cymeradwyo'r cynigion; doedd neb yn anghytuno â hwy. Disgrifiodd yr ymatebion y cynigion fel rhai '**hynod synhwyrol**' a '**cwbl briodol**'.
6. Roedd ymateb y Grŵp Llafur yn nodi bod y grŵp "**yn derbyn y cynigion yn fras...ac yn teimlo y dylai'r Cynulliad gael ystod o sancsiynau mwy effeithiol.**"
7. Nododd ymateb y Llywydd y sylw a ganlyn, sydd, yn fy marn i, yn crynhoi hanfod yr holl negeseuon gan yr ymatebwyr:

"Byddwn yn cefnogi ystod ehangach o sancsiynau, tebyg i'r hyn sydd wedi'i gynnig ar gyfer cynnal ymgynghoriad arno, er mwyn rhoi hyblygrwydd i'r Pwyllgor ac i'r Cynulliad bennu sancsiynau ystyrlon sy'n briodol i unrhyw amgylchiadau penodol."

O ganlyniad, rwy'n hyderus bod cefnogaeth eang, os nad unfrydol, i'r cynigion dan sylw.

Ystyriaethau Pellach Pwysig

8. Fel mae'r Llywydd wedi'n hatgoffa yn ei hymateb, byddai unrhyw newid i'r drefn sancsiynau yn gorfod achosi newidiadau i'r Rheolau Sefydlog. Mae trefn weithdrefnol ynglwm â hynny, gan gynnwys, fel y deallaf, angen cael mwyafrif o leiaf o ddwy ran o dair yr Aelodau i bleidleisio i gymeradwyo'r newidiadau.
9. Felly, awgrymaf gyda dyledus barch ei bod yn bwysig nodi ac ystyried y pwyntiau canlynol, wedi'u crynhoi gennyf yn nol â'r ymatebion a gefais:
 - pa "**hawliau a breintiau**" sydd wedi'u cynnwys yn C uchod, neu pa rai y dylid eu cynnwys? Bydd angen nodi hynny yn ddiamwys mewn unrhyw Reol Sefydlog newydd sy'n ymwneud â sancsiynau.
 - dylai unrhyw strwythur diwygiedig o ran sancsiynau nodi'n ddiamwys **na fydd staff cymorth yr Aelod yn cael eu cosbi** gan unrhyw sancsiwn a gaiff ei osod ar Aelod.
 - awgrymodd y Grŵp Llafur y dylid nodi'n ddiamwys mewn unrhyw Reol Sefydlog newydd **uchafswm cyfnod gwaharddiad** - "**chwe mis efallai**." Heb gyfeirio at y rhinweddau, hoffwn atgoffa'r Pwyllgor bod yr unig Reol Sefydlog bresennol sy'n darparu ar

gyfer gwahardd Aelod Cynulliad, sef 2.10, yn cyfeirio at "gyfnod a bennir yn unig".

10. Dyma grynodedb o ddau sylw arall gan y Grŵp Llafur.

- rhaid i unrhyw drefniadau newydd fod yn ddigon hyblyg i wahaniaethau rhwng "cwynion blinderus" a chwynion â "sail briodol"; ac
- mae'n bwysig darparu canllawiau eglur i Aelodau'r Cynulliad ynghylch unrhyw drefniadau newydd a'u cynorthwyo i osgoi "methu â chydymffurfio â'r safonau neu'r Rheolau Sefydlog yn anfwriadol."

11. Wrth gydnabod pwysigrwydd egluro a chyfleu unrhyw drefn newydd, efallai bod y pryderon dealladwy hyn yn fwy perthnasol i'n ailystyriaeth cyfredol o'r Cod Ymddygiad a'r Rheolau Sefydlog 'cosb' perthnasol, yn hytrach na'r sancsiynau eu hunain. Byddaf yn sicr yn ystyried hynny'n llawn yn rhan nesaf ein hadolygiad. Fodd bynnag, mentraf awgrymu na fyddai 'cwynion blinderus' yn cyrraedd y cam sancsiynau ac na fyddai achosion gwirioneddol o 'fethu â chydymffurfio â'r safonau yn anfwriadol' yn arwain at y cosbau mwy difrifol a ragwelir.

Y Broses

12. Rwyf wedi sôn yn fras am y camau gweithdrefnol y bydd yn rhaid eu dilyn cyn rhoi unrhyw drefn newydd ar waith. Hoffwn atgoffa'r Pwyllgor bod yr angen i gael Rheol Sefydlog sydd wedi'i llunio a'i drafftio'n ofalus yn hanfodol er mwyn i'r Pwyllgor Busnes a'r Cynulliad fod yn hyderus wrth ddatblygu trefn sancsiynau newydd.

Gerard Elias QC
Y Comisiynydd Safonau
16 Ebrill 2013

Roeddwn yn ddiolchgar iawn am y sylwadau a ddaeth i law gan:
Ieuan Wyn Jones AC
Jocelyn Davies AC
Peter Black AC
Rosemary Butler AC, y Llywydd
Ann Jones AC, yn cynrychioli'r Grŵp Llafur

Atodiad C - Diwygiadau arfaethedig i'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn Erbyn Aelodau'r Cynulliad

Argymhellion y Pwyllgor

7.11 Gall y Pwyllgor benderfynu:

- i. na chanfuwyd unrhyw fethiant i gydymffurfio ac y dylid gwrthod y gŵyn;
- ii. y canfuwyd methiant i gydymffurfio ond ei fod yn ddibwys ac y dylid gwrthod y gŵyn;

Neu, yn amodol ar unrhyw apêl gan yr Aelod dan sylw, gall y Pwyllgor benderfynu argymhell i'r Cynulliad:

- iii. y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach;
- iv. y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid "ceryddu" yr Aelod yn unol â'r Rheolau Sefydlog;
- v. y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid gwahardd yr Aelod o drafodion y Cynulliad⁷ naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, er enghraifft o drafodion cyfarfodydd penodol o'r Cynulliad neu ei bwyllgorau, am gyfnod penodol yn unol â'r Rheolau Sefydlog;⁸
- vi. y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylai rhai o hawliadu a breintiau penodol y Cynulliad gael eu tynnu yn ôl oddi ar yr Aelod o dan sylw; neu

⁷ Caiff "trafodion y Cynulliad" eu diffinio yn adran 1(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel "any proceedings of the Assembly, committees of the assembly or sub-committees of such committees."

⁸Mewn achos o argymhelliad i wahardd, yn unol a'r Rheolau Sefydlog, bydd hyn yn arwain yn awtomatig at dynnu cyflog yr Aelod yn ôl am gyfnod y gwaharddiad, ond ni fydd yn arwain at dynnu unrhyw lwfansau eraill yn ôl a ddarperir o dan Benderfyniad y Cynulliad ar Dâl a Chyflogau Aelodau. Ni fydd hyn yn effeithio ar gyflog a lwfansau staff a gaiff eu cyflogi gan yr Aelod o dan sylw.

- vii. pan ystyrir bod hynny'n briodol, gellir cymhwyso unrhyw gyfuniad o'r sancsiynau uchod.

Bydd hawliau a breintiau'r Cynulliad y gallai'r Pwyllgor eu hargymell i gael eu tynnu yn ôl yn cael eu nodi yn adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad, a gall hyn gynnwys:

- tynnu yn ôl hawl mynediad fel aelod i ystâd y Cynulliad;
- gwaharddiad o weithgareddau eraill y buasai gan yr aelod hawl i fynd iddynt; a /neu
- tynnu breintiau cynrychioliadol a seremonïol a breintiau cysylltiedig oddi ar aelod a fyddai fel afer yn eu mwynhau fel aelod;

Ystyriaethau

Wrth benderfynu pa sancsiynau i'w hargymell i'r Cynulliad, bydd y Pwyllgor yn beirniadu ar sail amgylchiadau penodol yr achos o dan sylw. Bydd yn ystyried a yw'r achos o dan sylw yn ail drosedd, neu'n dangos ymddygiad cyson a allai gael ei ystyried i fod yn dangos dirmyg tuag at gyd-Aelodau, y rheolau neu'r sefydliad. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried y bwriad, sef a oedd methiant bwriadol i gydymffurfio â'r cod ymddygiad ai peidio, ac a oes achos o anonestrwydd neu dwyll ynghlwm wrtho.